

"Dwi'n dwli ar Facebook, ond clywed storïau annifyr am ddisgyblion yn darganfod gormod o wybodaeth bersonol am eu hathrawon. Sut fedra i osgoi sefyllfa o'r fath?"

Mae gwefannau rhwydweithio cymdeithasol fel Facebook, Twitter, Instagram a Snapchat yn cynnig llawer o hwyl ac adloniant. Ond cofiwch fod yn wyladwrus - nid yw'n gymaint o hwyl pan fydd disgyblion / myfyrwyr neu rieni wedi gweld lluniau ohonoch ar *hen/stag night* neu'n gallu gweld sylwadau a sgysiau cellweirus oedd i fod yn breifat.

- Peidiwch â dod yn 'ffrindiau' arlein gyda disgyblion/myfyrwyr neu rieni
- Gwiriwch eich gosodiadau preifatrwydd ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol (e.e. Facebook, Twitter a Snapchat) i sicrhau eich bod yn rheoli pwy all weld y wybodaeth amdanoch; ystyriwch hefyd ddefnyddio gosodiadau preifatrwydd os ydych yn defnyddio Twitter. Mae'r *Education Support Partnership* yn cynnig cyngor manwl ar sut i wirio/cryfhau gosodiadau preifatrwydd: www.educationsupportpartnership.org.uk - chwiliwch ymhlith eu ffeithlenni
- Nid yw'n dderbyniol i athrawon/ddarlithwyr gyfeirio at eu lle gwaith neu gydweithwyr mewn unrhyw ffordd ar wefan rhwydweithio cymdeithasol nac ar flog, nac ychwaith i osod lluniau ohonynt ar safleoedd o'r fath
- Wrth flogio, neu wrth osod postïadau/sylwadau arlein o unrhyw fath, cofiwch nad yw'n gymeradwy i gyhoeddi unrhyw beth na fydddech yn fodlon rhoi eich enw iddo; os nad ydych yn fodlon i'r sylwadau cael eu cysylltu'n gyhoeddus â chi, gwell peidio â'u gwneud o gwbl
- Nid yw'n dderbyniol i wneud defnydd personol o wefannau megis Facebook, Bebo, Myspace, Flickr neu Twitter, nac i flogio, yn ystod oriau gwaith

A chofiwch gall cyflogwyr a darpar-gyflogwyr hefyd fod yn chwilio am wybodaeth amdanoch. Felly cymrwch ofal mawr ynglŷn â'r math o wybodaeth a lluniau rydych chi'n cyhoeddi am eich hun.

Am wybodaeth a chyngor pellach, edrychwch ar daflen wybodaeth UCAC: [Defnydd Diogel a Chyfrifol o E-dechnoleg](#) neu cysylltwch â swyddfa UCAC i gael copi.

Dylai bod gan eich ysgol / coleg **Strategaeth E-Ddiogelwch** a/neu **Bolisi Defnydd Derbyniol** (*Acceptable Use Policy*) sy'n rhestru rheolau'r ysgol / coleg yn y maes hwn, ac yn cynnig cyngor. Os nad ydych wedi gweld y Strategaeth/Polisi, gofynnwch i'ch Pennaeth.

Gallwch wynebu camau disgyblu o ganlyniad i ddefnydd amhriodol o'r gwefannau.